Cydraddoldeb, Cyfiawnder a Ffyniant: Ein strategaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Mae Sefydliad Bevan yn darparu atebion i broblemau mwyaf heriol Cymru.

Rydyn ni'n felin drafod ac elusen sy'n ymfalchïo ein hannibyniaeth. Does ganddon ni ddim cysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol, sy'n golygu gallwn ni fynegi'n barn a chanfod datrysiadau gwirioneddol newydd i'r sialensiau sy'n wynebu Cymru.

Rydyn ni'n ddibynnol ar haelioni cannoedd o bobl yng Nghymru a gweddill y DU i wneud y gwahaniaeth. Gallwch fod yn rhan o hyn am cyn lleied a £3.25 y mis drwy https://www.bevanfoundation.org/support-us/ neu gallwch cysylltiad â ni drwy ein e-gylchlythyr rhad ac am ddim ar https://www.bevanfoundation.org/sign-up

Rydyn ni'n elusen gofrestredig rhif 1104191 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant cofrestredig yng Nghymru rhif 4175018.

Mehefin 2018

Sefyliad Bevan
145a Stryd Fawr
Merthyr Tudful CF47 8DP

Twitter @bevanfoundation
Facebook.com/bevanfoundation
LinkedIn Bevan Foundation

Tel: +44 (0)1685 350 938
info@bevanfoundation.org
www.bevanfoundation.org

Rhif elusen gofrestredig: 1104191 Rhif y Cwmni. 4175018 Cofrestr TAW. 124 2383 41

Cynnwys

1. RHAGARWEINIAD 1

2. EIN STRATEGAETH 2

2.1. Ffyniant i bawb 2

2.2. Cydraddoldeb i bawb 3

2.3. Cyfiawnder a llais 4

3. EIN THEORI O NEWID 6

3.1. Deall y broblem 7

3.2. Datblygu atebion arloesol 7

3.3. Dysgu a gweithredu 8

4. ADNODDAU 9

1. RHAGARWEINIAD

Cydraddoldeb, cyfiawnder a ffyniant i bawb yng Nghymru ydy gweledigaeth Sefydliad Bevan. Ein cenhadaeth yw datblygu atebion parhaol er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth hon, gan gydweithio ag eraill i'w gwireddu.

Rydyn ni'n annibynnol o'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac mae hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn ddi-ofn. Mae ein harbenigedd a'n dulliau o weithio yn sicrhau bod yr hyn a wnawn yn ymarferol ac yn cyflawni canlyniadau. A phan fo angen i ni ddal sefydliadau i gyfrif, fe wnawn hynny.

Ers i ni gael ein sefydlu yn 2001, mae Sefydliad Bevan wedi gwneud cyfraniad pwysig i drafodaeth gyhoeddus a pholisi cyhoeddus er gwaetha adnoddau cyfyngedig iawn. Dros y pymtheg mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi canolbwyntio'n barhaus ar ostwng anghydraddoldebau ymhob agwedd o fywydau pobl, gan lwyddo i raddau helaeth, i godi proffil problemau a hyrwyddo atebion ymarferol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac elusennau i gyd yn gweithredu nifer o'n cynigion ac mae bywydau pobl, o ganlyniad, yn well.

Nod ein strategaeth am y tair blynedd nesaf - 2018/19 tan 2020/21 – ydy mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac economaidd mwyaf heriol Cymru, gan gynnwys y rhai sydd wedi plagio ein cenedl ers blynyddoedd yn ogystal â sialensiau newydd sy'n dod i'r fei. O wneud hyn, ein bwriad ydy adeiladu ar ein cyflawniadau sylweddol, yn atgyfnerthu 'yr hyn sy'n gweithio' a datblygu dulliau newydd o fynd ati.

Mae'r sialensiau sy'n wynebu Cymru yn ddigynsail.

Mae pobl ynghanol y twf gwannaf mewn safonau byw ers o leiaf 60 mlynedd, gyda theuluoedd isel eu hincwm yn wynebu'r problemau gwaethaf. Mae cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus wedi gweld toriadau o ran gwir delerau i nifer o wasanaethau cyhoeddus ac i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, eto'n effeithio waethaf ar deuluoedd isel eu hincwm. Mae synnwyr o lesiant yn is yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall yn y DU. Y canlyniad yw bod bywydau, oherwydd tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, yn cael eu gwastraffu bob dydd.

Ni fydd dulliau sefydledig o gwrdd â'r sialensiau yn gweithio.

Cafwyd nifer o ymdrechion i ddatrys tlodi a gostwng anghydraddoldeb gyda rhai yn arwain at welliannau real a diriaethol. Ond mewn meysydd eraill ni fu nemor ddim cynnydd er gwaetha bwriadau da, boed mewn enillion, cyflawniadau addysgol neu achosion o glefydau arbennig.

Ein barn ydy nad yw gwneud yr un peth yn opsiwn. Mae cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yma i aros am y dyfodol agos, ond mae ansicrwydd dwfn am ragolygon economaidd Cymru a'r DU. Yn rhy aml, dydy diffyg uchelgais ym mholisi cyhoeddus a bwriadau da polisi Cymru yn llwyddo i greu effaith ddigonol. Heb newid yn y dull o fynd ati, bydd rhagor o fywydau yn cael eu difetha yn y blynyddoedd i ddod a bydd pawb yng Nghymru yn talu'r pris.

Ein strategaeth am y tair blynedd nesaf fydd datblygu atebion ymarferol i'r sialensiau newydd y mae Cymru wedi'u hwynebu ers amser maith. Wrth wneud hyn byddwn ni bob amser yn rhoi'r bobl ymylol a di-rym yn gyntaf. Yna, fe wnawn ni berswadio llywodraeth, busnesau, cymunedau a'r bobl eu hunain i weithredu. Hon ydy'r uchelgais fawr a beiddgar – ond dyma beth mae Cymru ei angen!

Gobeithio y byddwch y gweithio gyda ni i gyflawni'r targedau a rennir.

2. EIN STRATEGAETH

Rydyn ni am weld Cymru lle mae pawb yn gallu mwynhau 'bywyd da' beth bynnag fo'u priodweddau personol, megis rhyw, hil neu anabledd, o gefndir cyfoethog neu dlawd. Mae'r nod hwn yn llawer mwy na chyflawni gwelliannau cyffredinol mewn ffyniant neu lesiant – mae'n golygu gweithredu i ostwng yr anghydraddoldebau a'r anghyfiawnderau sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhob agwedd bron o fywyd. Felly, mae ein dull o fynd ati yn ategu targedau llesiant Cymru ond hefyd yn eu herio.[1]

Mae ein dealltwriaeth o'r hyn ydy 'bywyd da' yn tynnu ar nifer o safbwyntiau a barn, o syniadau hawlwyr dynol blaenllaw i syniadau torfol megis 'Y Cymru a Garem'.[2] O'r amrywiaeth hon, rydyn ni wedi nodi gofynion hanfodol cymdeithas waraidd a gweddus a 'bywyd da' fel a ganlyn:

- **Ffyniant:** dylai pawb fwynhau safon byw gweddus gyda'r pethau neu weithgareddau y mae'r rhan fwyaf o bobol yn eu cymryd yn ganiataol ac na ddylai neb fynd heb loches, bwyd a chynhesrwydd digonol
- **Cydraddoldeb:** dylai pawb allu gwireddu eu potensial waeth beth fo'u priodweddau a'u cefndir, drwy iechyd da a sgiliau effeithiol mewn cymunedau cydlynol.
- **Cyfiawnder a Llais:** dylai pawb gael dweud eu dweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, gallu cymryd rhan mewn cymdeithas waraidd, ffyniannus a chael mynediad i gyfiawnder pan fydd pethau'n mynd o chwith

Rydyn ni'n ystyried mai gwraidd tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder ydy ein systemau economaidd, cymdeithasol a sefydliadol. Wrth gwrs, mae penderfyniadau unigolion a'u hymddygiad yn gwneud gwahaniaeth, ond daw newid parhaol ar gyfer y nifer fwyaf o bobl o ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer effeithiol.

2.1. Ffyniant i bawb

Y broblem

Mae un o bob pedwar unigolyn yng Nghymru yn brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd oherwydd bod eu hincwm yn rhy isel i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae dros hanner o bobl oed gweithio sydd ar incwm lefel tlodi yn byw ar aelwyd lle mae rhywun mewn gwaith. Mae aelwydydd dan bwysau go wir, gyda bron i 11,000 o deuluoedd yn cael eu gwneud yn ddigartref y llynedd a 43,000 o gartrefi yn derbyn parseli bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn ystod 6 mis yn unig. Mae costau uchel e.e. tai a thanwydd yn golygu bod teuluoedd yn ei chael hi hyd yn oed yn fwy anodd, gyda rhenti yn anfforddiadwy i bron hanner y tenantiaid tai cymdeithasol.

Mae tlodi yn difwyno bywydau pobl. Mae cael ei fagu mewn tlodi yn effeithio ar bwysau babi ar ei enedigaeth ac ar gyflawniad plentyn yn yr ysgol. O ran oedolion, mae tlodi yn effeithio ar eu risg o

[1] Fel y gwelir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y rhain ydy: Cymru ffyniannus; Cymru wydn; Cymr iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynol; Cymru â diwylliant bywiog a Chymru lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang ydy'r rhain.
[2] Y Cymru a Garem (2014). Ar gael ar http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en

gael eu gwneud yn ddi-waith, ar y tebygrwydd o ddioddef canser neu glefyd y galon a'r risg o brofi trais domestig. I bobl hŷn, mae tlodi yn effeithio ar eu disgwyliad oes. Ar ben hynny, mae tlodi hefyd yn costio £3.6 biliwn y flwyddyn i goffrau cyhoeddus Cymru

Dydy tlodi bellach ddim yn flaenoriaeth gwleidyddol fel ag y bu yng Nghymru a'r DU. Does nemor fawr o arwyddion bod cyfradd sylfaenol tlodi yn gostwng ac mae rhai arwyddion ei bod yn gwaethygu:

- rhagwelir bod tlodi plant yn mynd i gynyddu i bron 40% erbyn 2021
- mae tlodi mewn gwaith yn dal i gynyddu
- mae tlodi pensiynwyr ar gynnydd ar ôl blynyddoedd o fod yn gostwng.

Ein nod

Rydym am dod â phla tlodi i ben yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i fwy o bobl ddatrys problem tlodi, ei ddeall a gweithredu.

Ein huchelgais ydy, y bydd, erbyn 2030, ymchwydd o gefnogaeth i weithredu effeithiol a fydd yn golygu:

- na fydd mwy na 10% o'r boblogaeth yn byw ar incwm isel, ac
- na fydd neb byth yn ddiymgeledd.

Yr hyn a wnawn

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn ffocysu ar delio ac achosion creiddiol tlodi sef:

- sut gall gwaith nawr, ac yn y dyfodol, atal tlodi ac amddiffyn yn ei erbyn;
- sut gall pawb gael cartref gweddus, fforddiadwy a diogel a digon i'w fwyta;
- sut gall rhwyd diogelwch o fudd-daliadau helpu pobl osgoi a gadael tlodi .

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phobl sydd â phrofiad o dlodi yn ogystal ag arbenigwyr ac ymarferwyr i ddeall tlodi yn y tri maes hwn ac i ddatblygu atebion ymarferol.

Bydd ein gwaith sylfaenol ar dlodi yn digwydd mewn partneriaeth â Sefydliad Joseph Rowntree. O gydweithio gyda nhw a phartneriaid eraill a ffocysu ar y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru, byddwn yn mynd ag atebion ymarferol yn eu blaen, atebion a fydd yn golygu gostyngiad amlwg yn lefel tlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru.

2.2. Cydraddoldeb i bawb

Y broblem

Dydy miloedd o bobl yng Nghymru ddim yn gallu gwneud yn fawr o'u talentau oherwydd pwy ydyn nhw, eu hincwm a lle maen nhw'n byw. Mae gan bobl isel eu hincwm fwy o faich salwch a disgwyliad oes byrrach nag eraill, gyda dyn o ardal ddifreintiedig yn cael 18 mlynedd llai o iechyd. Mae anghydraddoldeb cyflawniad yn cychwyn yn gynnar ac erbyn iddyn nhw gyrraedd 16 oed, dydy plant sy'n derbyn Prydau Ysgol ddim hanner mor debygol o ennill 5 TGAU da â phlant eraill. Mae

anghydraddoldebau o ran rhyw, hil ac anabledd yn ddi-ildio er gwaetha degawdau o ddeddfwriaeth yn erbyn gwahaniaethu.

Mae ble mae pobl yn byw hefyd yn gwneud gwahaniaeth, yn llunio'r cyfleoedd sydd ar gael a'r cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Weithiau, mae tensiynau rhwng grwpiau yn troi'n drais neu gamdriniaeth, gydag un person o bob pump o leiafrifoedd ethnig neu grefyddol yn datgan eu bod wedi profi aflonyddwch neu gamdriniaeth yn ddiweddar.

Does dim llawer o arwyddion bod pethau'n gwella a rhai arwyddion bod pethau'n gwaethygu. Mae'r bwlch mewn disgwyliad bywyd iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn lledu ac mae bwlch cyflawniad rhwng plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ac eraill heb symud ar ôl lleihau am ychydig o flynyddoedd. Ac mae cydlyniad cymunedol yn darnio mewn rhai ardaloedd, gyda thystiolaeth am lefelau isel o berthynas a bod aflonyddu a chamdriniaeth ar gynnydd.

Ein nod

Rydyn ni am ddod o hyd i ddulliau newydd i alluogi pawb i gael 'bywyd da', waeth pwy ydyn nhw na ble maen nhw'n byw.

Ein nod ydy datblygu dulliau i alluogi pawb yng Nghymru i wneud y gorau o'u talentau fel bod, erbyn 2030:

- Pobl ifanc yn cynnwys y rhai hynny'n sy'n anabl, o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac mewn teuluoedd isel eu hincwm, yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â'r rhai o gartrefi mwy goludog.
- Baich salwch a disgwyliad oes byrrach yn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru yn lleihau.
- Pobl yn mwynhau cysylltiadau cymunedol da a chyfleoedd rhagorol ymhob ran o Gymru.

Yr hyn a wnawn

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn datblygu atebion ymarferol er mwyn cynyddu cydraddoldeb rhwng gwahanol grwpiau o bobl gan ffocysu ar y canlynol:

- Gwell cyfleoedd mewn bywyd i bobl ifanc o bob cefndir
- Gwell iechyd i bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig
- Cymunedau cryfach a mwy cydlynol.

Rydyn ni wrth ein bodd ein bod wedi sicrhau cymorth gan Sefydliad Paul Hamlyn i wella integreiddiad a hawl ymfudwyr i Gymru, a byddwn yn ceisio sicrhau parhad yn yr ariannu er mwyn datblygu ein gwaith ar gael gwell cyfleoedd mewn bywyd ar gyfer pobl ifanc.

Byddwn hefyd yn ceisio cymorth gan arianwyr eraill i'n galluogi i gyflenwi'r rhaglen hon.

2.3. Cyfiawnder a llais

Y Broblem

Mae'n argyfwng ar ddemocratiaeth a chymdeithas wâr yng Nghymru. Er bod cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl bob dydd, dim ond ychydig o bobl sy'n cael

dweud eu dweud ynglŷn â'r hyn y mae'r cyrff hynny yn ei wneud. Yn aml, dydy'r sefydliadau ddim yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach a dydyn nhw ddim bob amser yn gwrando ar farn pobl. O ystyried llywodraeth leol:

- Yn etholiadau lleol Mai 2017 dim ond 4 allan o 10 o bobl bleidleisiodd
- Mewn etholiadau lleol, un ymgeisydd yn unig oedd mewn 1 o bob 13 sedd.
- O ran y boblogaeth gyffredinol, dydy 90% ddim yn ymwneud â busnes cynghorau.

Mae newidiadau megis 'City Deals', is-gontractio gwasanaethau a newidiadau posibl i lywodraeth leol yn golygu bod penderfyniadau yn mynd ymhellach oddi wrth bobl gyffredin. Dydy hi ddim yn glir sut mae'r cyrff hyn yn gwneud penderfyniadau na sut gall barn dinesydd gael ei chlywed.

Mae cyfranogiad mewn cymdeithas wâr yn gymharol isel, ac mae sefydliadau yn wynebu pwysau digynsail ar gyllidebau wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu ac mae angen mynd i'r afael â phryderon am atebolrwydd ac ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

A phan mae pethau'n mynd o chwith, mae angen i bobl gael hawl i gael cyfiawnder er mwyn sicrhau bod pethau'n cael eu cywiro, boed trwy weithdrefnau achwynion effeithiol, gofyn am gymorth yr Ombwdsmon neu gael hawl i fynd i dribiwnlys.

Ein nod

Rydyn ni am i bawb gael llais cryf yn y penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw. Dylai sefydliadau gwleidyddol a chyhoeddus Cymru gynrychioli ein poblogaeth amrywiol ac yn atebol iddi, gyda lefel uchel o ymglymiad mewn democratiaeth, mudiadau cymdeithasol a chymdeithas wâr a hawl i gyfiawnder pan fo angen.

Yr hyn a wnawn

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn datblygu cynigion sylfaenol i atgyfnerthu llais, cyfranogiad y bobl a chyfiawnder i'r bobl fel y gall pobl ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Democratiaeth leol fywiog lle gall pobl ddweud eu dweud a bydd sefydliadau yn gwrando
- Hawliau a gwneud iawn pan fydd pethau'n mynd o chwith
- Cymdeithas sifil ffyniannus

Byddwn yn chwilio am gyllid ariannol i gyflenwi'r rhaglen hon, er, lle bo'n hanfodol, byddwn ni'n defnyddio ein hadnoddau ein hunain er mwyn sicrhau na fydd llais pobl gyffredin yn cael ei anwybyddu mewn trafodaethau pwysig.

2.4. Y camau nesaf

Yn ystod pob blwyddyn, byddwn yn datblygu cynlluniau manwl o gwmpas y themâu eang hyn. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried problemau a phryderon cyfoes. Bydd hefyd yn adlewyrchu ein gallu i gyflenwi ar y materion sy'n dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i ni.

3. EIN THEORI O NEWID

Ein diben elusennol sylfaenol yw 'addysgu'r cyhoedd', a gwnawn hyn drwy ehangu ein cyd-wybodaeth, yn ffurfiol ac anffurfiol, am faterion cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'u hatebion.

Rydyn ni wedi datblygu model 'theori o newid' clir neu resymegol i ddangos sut mae'n pwrpas elusennol yn cyflawni newid real a pharhaus ym mywydau pobl. O fewn y dull 3 cham hwn o fynd ati, rydyn ni hefyd wedi nodi sut rydyn ni'n mynd i'r afael â delio â phob cam, gan fod yn arbennig o ofalus i sicrhau'r canlynol:

- ein bod yn cynnal ein hannibyniaeth o ran meddwl a gweithred sut yr ydyn ni'n diffinio materion cymdeithasol ac economaidd
- ein bod yn ymglymu'r bobl yr effeithiwyd arnyn gan broblemau i ddatblygu atebion
- ein bod yn defnyddio nifer o wahanol ddulliau o annog pobl a sefydliadau i weithredu.

Theori o Newid Sefydliad Bevan



3.1. Deall y broblem

Mae deall y 'broblem' yn allweddol i ddull Sefydliad Bevan o fynd ati, oherwydd bod hyn yn fframio'r atebion a'r gweithredu. Efallai bod rhai o'r 'problemau' yr ydyn ni'n ceisio eu deall yn rhai newydd, gan nad ydyn nhw'n broblem a gydnabyddir gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau nac yn y drafodaeth gyhoeddus, neu'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd newydd. Dyma un o'r nifer o resymau pam fod gweithio gyda phobl gyffredin yn hanfodol bwysig.

Wrth datblygu ein dealltwriaeth, ein nod yw:

- **Nodi a fframio problemau ar sail profiadau pobl**
  Barn pobl a effeithir gan broblem fydd ynghanol ein dealltwriaeth. Mae gan y Llywodraeth ac ystadegau eraill rôl i'w chwarae, ond profiadau pobl gyffredin fydd bwysicaf.

- **Casglu a dadansoddi tystiolaeth**
  Byddwn ni'n defnyddio dulliau trylwyr i sicrhau bod y dystiolaeth yr ydyn ni'n ei chasglu yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru. Byddwn yn sicrhau bod ein dadansoddiad yn defnyddio dulliau priodol a bod ein canfyddiadau yn cael ei riportio mewn ffordd deg a chytbwys.

- **Cynyddu gwybodaeth**
  Byddwn yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ar y cyd o fater neu broblem, yn rhannu ein canfyddiadau yn eang ac agored mewn sesiynau briffio, erthyglau ac adroddiadau. Gwnawn ein gorau glas i sicrhau bod ein allbwn yn hygyrch i bawb, yn amodol ar adnoddau.

3.2. Datblygu atebion arloesol

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu atebion ymarferol i faterion yr ydyn ni wedi'u dynodi. Gallai rhai o'r atebion olygu newidiadau o ran trafodaeth gyhoeddus a blaenoriaethau gwleidyddol, gallai eraill olygu deddfwriaeth newydd neu well, polisïau neu ariannu cyhoeddus, a gallai eraill olygu newidiadau mewn ymddygiad, boed trwy fusnes, gweithwyr proffesiynol neu unigolion.

Byddwn yn datblygu atebion priodol drwy:

- **Arloesi cymdeithasol**
  Byddwn yn defnyddio ystod o ddulliau i gynhyrchu atebion i broblemau, gan gynnwys dysgu o arferion mewn mannau eraill, gwrando ar farn pobl gyffredin a rhanddeiliaid fel bo'n briodol a'n profiad a'n dychymyg ein hunain.

- **Treialu a Phrofi**
  Byddwn yn profi ymarferoldeb ein cynigion, fel arfer drwy drafodaeth gydag ystod eang o bartïon â diddordeb neu weithiau ymgynghoriad mwy ffurfiol.

- **Gwneud achos**
  Ar gyfer cynigion addawol, byddwn yn datblygu achos cadarn ar gyfer newid, yn dangos y gall ein syniadau gael eu cyflenwi a'u bod yn effeithiol.

3.3. Dysgu a gweithredu

Addysg ydy ein pwrpas elusennol sylfaenol ac felly, rydyn ni'n cyflawni newid drwy hyrwyddo dysgu am faterion. Mae ein ffocws ar gynyddu cyd-wybodaeth am broblem a'r modd y gall ein hatebion arfaethedig wneud gwahaniaeth. Yna, rydyn ni'n monitro ac asesu effaith ein gwaith. Gwnawn hyn drwy:

- **Nodir rhai sy'n 'newid pethau'**
  Y rhai sy'n newid pethau ydy'r bobl a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am roi'r atebion yr ydyn ni wedi'u hargymell ar waith. Llywodraeth Cymru fydd un prif ffocws o hyd oherwydd ei grymoedd deddfwriaethol, polisi ac ariannol, ond byddwn hefyd yn ffocysu ar sefydliadau eraill, ar fusnesau, gweithwyr proffesiynol ac unigolion i fod yn gyfryngau ar gyfer newid hefyd.

- **Cyrraedd y gynulleidfa darged gan ddefnyddio'r dulliau priodol o fynd ati**
  Byddwn yn cyrraedd ein cynulleidfa darged drwy gynadleddau a seminarau, hyfforddiant, cyfarfodydd, sesiynau briffio a thrwy gyhoeddi adroddiadau, erthyglau ac adnoddau mewn ystod o gyfryngau.

- **Monitro cynnydd ac effaith**
  Byddwn yn monitro cynnydd gan defnyddio cymysgedd o ystadegau a phrofiadau pobl i dweud wrthon ni a'r awdurdodau sydd ohoni pa mor dda maen nhw'n gwneud.

Mehefin 2018

Sefyliad Bevan
145a Stryd Fawr
Merthyr Tudful CF47 8DP

Twitter @bevanfoundation
Facebook.com/bevanfoundation
LinkedIn Bevan Foundation

Tel: +44 (0)1685 350 938
info@bevanfoundation.org
www.bevanfoundation.org

Rhif elusen gofrestredig: 1104191 Rhif y Cwmni. 4175018 Cofrestr TAW. 124 2383 41